



LLEISIAU DYFFRYN DULAS

<https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/>

DISGYBLION NEWYDD


Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, rydym yn croesawi Dom ac Ezra atom yn rhan amser yn y boreau. Hefyd, mae saith o ddisgyblion wedi cychwyn yn llawn amser yn y Derbyn eleni. Rydym yn croesawi Elis a Kane am y tro cyntaf. Hefyd Pegi, Evie, Charlie, Verity, Arna sydd wedi bod yn mynychu ambell i sesiwn yn y boreau llynedd ond sydd wedi cychwyn yn llawn amser mis Medi. Dwi'n siwr byddwch wrth eu boddau yma yn Ysgol Dyffryn Dulas



GARDDIO

Mae dosbarth 7-11 wedi bod yn brysur yn garddio yn ystod y misoedd diwethaf.

Cyn Sioe Corris, bu'r dosbarth yn tynnu'r llysiau ar gyfer arddangos yn y sioe ac ar gyfer gwerthu cynnyrch i rieni.



CYNGOR YSGOL

Ar ddechrau'r tymor bu disgyblion hynaf yr ysgol yn brysur yn ysgrifennu araith ar gyfer cyflwyno i'r dosbarth cyfan. Cafwyd etholiad a llongyfrachiadau i'r disgyblion isod sydd wedi cael eu enwebu i fod ar y Cyngor Ysgol eleni.

Blwyddyn 2 - Efa Roberts

Blwyddyn 3 - Gruff Jones

Blwyddyn 4 - Lucy Derdak

Blwyddyn 5 - Anya Crockford

Blwyddyn 6 - Otis Jones a Grace Hussein



SWYDDOGION IAU DIOGELWCH Y FFORDD



Enwebwyd Swyddogion Iau Diogelwch y Ffyrdd am 2025-2026.

Talitu Francois a Rhodri Summerfield yw Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd eleni.

Rôl y swyddogion yw lledaenu negeseuon diogelwch ar y ffyrdd i gymuned yr ysgol trwy rhoi sgysrsiau, cynnal cystadlaethau, gosod posterï a lledaenu negeseuon pwysig.

PEL DROED

Aeth plant Ysgol Pennal a Chorris draw i Bala ar Ddydd Mawrth Medi 30ain i chwarae mewn twrnament pêl droed 7 bob ochr. Roedd hi'n braf cael cystadlu gyda'n gilydd unwaith eto, yn enwedig gyda'r cit newydd sbon. Roedd pawb yn chwarae'n galed iawn, enillwyd dwy gem a phedair gem gyfartal, ond yn anffodus ni lwyddwyd i fynd i'r gemau terfynol. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn, da iawn chi!





LLWYDDIANT SIOE CORRIS

Dydd Sadwrn cyntaf mis Medi cynhaliwyd Sioe Corris yn yr Ysgol. Bu disgyblion Dosbarth 3-7 Ysgol Dyffryn Dulas yn brysur yn peintio lluniau o'i ffrind perffaith a chreu cadw mi gei ar gyfer y sioe.

Llongyfarchiadau i Efa Roberts am ennill y gwpan.

Daeth Noah yn ail ac Efa yn drydydd am beintio ffrind. Hefyd, daeth Efa yn gyntaf ac yn ail am greu cadw mi gei, ac Elsie yn drydydd. Bu'r plant hefyd yn coginio, creu gerddi a chreu eitemau o lego adref. Da iawn chi.

Bu plant Dosbarth 7-11 yn cystadlu yn yr Adran Garddio eto eleni. Cafwyd yr ail wobr am y moron a'r ail wobr am y ddwy bwmpen.



IOGA GYDA JESS

Bu disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau ioga dan arweiniad Jess fel rhan o weithdai Eginiaid Cymru. Ariannwyd y gweithdai drwy gronfa Ynni Adnewyddadwy Cymunedol Bro Ddyfi.

Trwy symudiad, anadlu a llais, dysgon nhw ffyrdd syml o ymlacio, canolbwyntio ac adeiladu hyder. Roedd y sesiynau'n llawn egni, ac ymatebodd y plant gyda brwdfrydedd a chwilfrydedd. 'Dw i'n caru ioga! Dw i'n hoffi pan mae Jess yn chwarae'r gitar,' meddai Evie D. 'Dw i'n hoffi cael cyfle i ymlacio o dan flanced ar ddiwedd y sesiwn,' ychwanegodd Evie.


"Mae pawb yn yr ysgol wedi bod yn cael ioga gyda Jess bob dydd Llun. Rydym wedi dysgu symudiadau ioga gwahanol, rhai yn hawdd rhai yn anodd. Rydym yn dysgu os rydym ofn, neu yn flin mae anadlu yn bwysig ac yn helpu ni i deimlo'n well. Dwi'n mwynhau dweud sut dwi'n teimlo bob sesiwn a cymharu hyn gyda'r tywydd. Y peth dwi'n mwynhau fwyaf yw'r 'shavansa' ar y diwedd, mae rhai plant yn syrthio i gysgu!!"

Ysgrifennwyd gan Elain Puw



LABRINTH Y BRENNIN ARTHUR

Aeth disgyblion Dosbarth 7-11 i Labrinth y Brenin Arthur yng Nghanolfan Grefftau Corris, Dydd Iau, 18fed o Fedi. Roedd hyn yn brofiad gwych i bob plentyn i'w sbarduno fel rhan o'n thema tymor yma.



COETIR ANIAN

Ar y 24ain o Fedi, aethom ni i Coetir Anian ar y bws i fyni mynydd anferth. Roedden ni wedi creu llun o'r goedwig law hefo dail, brigau, cerrig a mwsog i ddangos yr haenau gwahanol. Yna roeddem wedi creu nythod a chynefin i wahanol anifeiliaid, a rydan ni wedi chwarae gemau. Roedden i wedi cael llawer o hwyl ac wedi dysgu lawer am natur.

Ysgrifennwyd gan Grace Hussein



GWEITHDY TIDE AND TELL

Diwedd mis Medi daeth Catrin O' Neill i gynnal gweithdy gyda'r plant hynaf oedd yn canolbwyntio ar dreftadaeth leol a sgiliau traddodiadol. Fel rhan o'r elusen Time and Tide Bell, cafodd y disgyblion gyfle i weithio'n uniongyrchol gydag aelodau hŷn o'r gymuned leol, gan ddysgu am hanes diddorol yr ardal arfordirol. Daeth aelodau hŷn o'r gymuned i rannu eu gwybodaeth a'u profiad, gan gynnig cyfle i glywed straeon am fywyd ar yr arfordir. Cafwyd mewnwelediad i hanes lleol, gan gynnwys rôl y môr, arferion pysgota traddodiadol, a sut mae cymunedau arfordirol wedi esblygu dros amser. Ochr yn ochr â'r hanes, cafwyd gyfle i ddysgu sgiliau traddodiadol, megis creu rhwydi crancod, a deall patrymau llifogydd lleol, i gyd wrth greu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd cadw treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



BORE COFFI MACMILLAN

Diolch i bawb a gyfrannodd i'n bore coffi Macmillan. Cafodd y disgyblion llawer o hwyl yn addurno cacennau bach blasus, a daeth pawb mewn dillad gwyrdd i ddangos cefnogaeth. Codwyd £59 i'r elusen. 'Wnes i addurno cacen efo wyneb ffrind ac aethon ni i'r neuadd efo'r plant mawr', meddai Chloe. 'Wnes i joio bwyta cacennau', meddai Kane. 'Wnes i wyneb efo 'sprinkles'. Dw i ar y Cyngor Ysgol a wnes i hoffi helpu yn y neuadd,' meddai Efa.



DIWRNOD IECHYD MEDDWL



Ar Ddydd Iau, Hydref 9fed, daeth y disgyblion i'r ysgol yn gwisgo dillad melyn llachar i gefnogi'r elusen Young Minds ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Nod y diwrnod yw codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl ledled y byd, gan annog sgysiauw agored a charedigrwydd tuag at ein hunain a'n gilydd. Cafodd dysgwyr 3-7 oed gyfle i drafod teimladau gwahanol, rhannu syniadau am yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus, a chael amser penodol i wneud y pethau y maen nhw'n eu caru. Roedd y gweithgareddau'n llawn hwyl, gan gynnwys sesiwn coginio lle crëwyd cacen gaws flasus! 'Ges i hwyl yn malu'r bisgedi a gweld y menyn yn troi'n hylif,' meddai Max a Noah. 'Roedd y gacen gaws yn delicious!' ychwanegodd Barney. 'Wnes i joio chwarae efo'r teganau meddal, yn arbennig y draenog,' meddai Evie. 'Y peth gorau oedd cael amser chwarae yn y parc,' meddai Chloe. Bu'r disgyblion hynaf yn yr ysgol yn gwneud cibabs ffrwythau, ac addurno platiau papur gyda'r hyn sydd yn ei gwneud yn hapus a'r hyn sy'n bwysig iddynt.

SESIYNAU BEICIO



Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn rhan o'r prosiect Beicio i Bawb sydd wedi cael ei drefnu gyda Beics Antur. Roedd y sgiliau beicio yn galluogi pob plentyn i gael cyfle i ddysgu sgiliau a technegau beicio mewn awyrgylch saff ar dir yr ysgol a chodi hyder plant ar gefn beic. Dysgwyd sut i ofalu am y beics, pwysigrwydd helmedi a dillad addas, a mynd ar ac oddi ar y beic yn ddiogel. Diolch yn fawr i Jack am gynnal y sesiynau yn ystod y dau ddiwrnod. Roedd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi mwynhau'n fawr.

DIOLCHGARWCH



Cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r thema dosbarth 3-7 oed eleni ar Ffrindiau. Thema dosbarth 7-11 oedd Brenin Arthur a chyfeillgarwch. Roedd y gwasanaeth yn gyfle i fyfrio ar werth cyfeillgarwch, caredigrwydd, a'r gefnogaeth rydym yn ei roi i'n gilydd yn y gymuned ysgol. Disgyblion o bob dosbarth gyfrannodd drwy ddarllen, canu, ac rannu eu meddyliau am beth mae bod yn ffrind da yn ei olygu. Roedd y neges yn glir: mae ffrindiau'n gwneud ein byd yn lle gwell. Fel rhan o'n dathliadau Diolchgarwch, buom yn casglu eitemau bwyd i gefnogi'r banc bwyd lleol. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd. Mae'r eitemau'n mynd i helpu teuluoedd yn ein cymuned sydd angen cymorth ychwanegol dros yr hydref a'r gaeaf.

NOSON BINGO 'SGLOD A 'SGOD

Cafwyd noson hwyliog Nos Wener, 17eg o Hydref pan ddaeth rhieni, disgyblion a'r gymuned at eu gilydd ar gyfer y Noson Bingo, 'Sglod a 'Sgod. Diolch i Bwyllgor Ffrindiau'r Ysgol am drefnu'r noson ac i bawb am gefnogi.



DANGOS CERDYN COCH I HILIAETH

Dydd Gwener, 17eg o Hydref bu'r ysgol yn cymryd rhan mewn Diwrnod Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, gan sefyll yn gadarn yn erbyn pob math o wahaniaethu ac annog parch i bawb.

Fel arwydd o gefnogaeth, gwisgodd staff a disgyblion ddillad coch drwy'r dydd. Roedd yr ysgol yn llawn lliw ac egni, gan ddangos ein hymrwymiad i greu cymuned deg a chroesawgar.

Yn ystod y dydd, bu dosbarthiadau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, trafodaethau grŵp, a sesiynau creadigol i archwilio pwysigrwydd amrywiaeth, cydraddoldeb, a charedigrwydd.

Rydym yn falch iawn o'r ymateb brwd gan bawb, ac yn parhau i weithio tuag at ysgol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael eu parchu.

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

POBURDD

Cystadleuaeth Cogurdd eleni oedd gwneud brechdan agored. Un prynhawn yn sesiwn yr Urdd, bu 7 disgybl yn brysur yn gwneud brechdan agored gydag amrywiaeth o fwydydd blasus yn cael ei defnyddio.

Mrs Dilys Roberts oedd y beirniad eleni a dyma'r canlyniad :

1af Grace Hussein

2il Otis Jones

3ydd Anya Crockford a Lucy Derdak



COGURDD

Bu 4 disgybl sydd yn aelod o'r Urdd yn pobi cacennau dathlu adref ar gyfer y diwrnod beirniadu yn yr ysgol un pwnn dydd Llun.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion am baratoi cacennau deniadol iawn.

Daeth Otis Jones yn gyntaf, Grace Hussein yn ail ac Anya Crockford a Lucy Derdak yn drydydd. Mrs Val Jones, ein cogyddes oedd y beirniad.



DIWRNOD
SHW MAE
SU MAI

Dydd Mercher, 15fed o Hydref bu'r ysgol yn cymryd rhan yn Niwrnod Shw Mae Su'mai, sef diwrnod cenedlaethol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog a chynhwysol.

Roedd yr ysgol yn llawn egni a lliw wrth i ddisgyblion a staff wisgo dillad Cymru, a chroesawu ei gilydd gyda "Shw mae!" neu "Su'mai!" drwy'r dydd. Bu gweithgareddau amrywiol yn ystod y dydd. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i ddathlu'r iaith Gymraeg, annog ei defnydd bob dydd, a dangos balchder yn ein diwylliant.



DISGO
CALAN
GAEAF

Roedd y neuadd yn llawn bwrlwm dydd lau cyn hanner tymor. Trefnodd y Cyngor Ysgol Disgo Calan Gaeaf oedd yn llawn hwyl. Roedd pawb wedi gwisgo fyny mewn gwisgoedd creadigol - o fampirod i gwrachod, ac ambell i sgerbwd yn dawnsio! Cafwyd cerddoriaeth fywiog a gemau hwyliog.

